

Cofion

Estynnwn ein cydymdeimald heddiw â Rhys Howatson (Hiraethog) a'r teulu i gyd ym marwolaeth Lloyd. Hyderwn y bydd y teulu hwn yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb â'r brofedigaeth arw yma ddaeth i'w rhan. Yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Heulwen Roberts (Henllan) sydd wedi colli ei brawd yr wythnos ddiwethaf. Gweddiwn y bydd y teulu hwn hefyd yn adnabod yr un nodded. Bellach mae Roberta Hughes (Groes), Elsa Evans (Llanefydd) a Menna Streeter (Henllan) yn yr Inffirmari. Yr ydym yn cyflwyno'r tair i ofal yr Arglwydd, a'u teuluoedd yr un modd. Yr ydym hefyd yn cofio am Nerys Jones (Llansannan) fydd yn mynd i gael triniaeth dydd Gwener nesaf. Da deall fod Glyn Davies (Saron) wedi dod adre bellach, ac yn ôl y gwybodusion, wedi gwella'n dda, ac o gwmpas ei orchwylion.

Hyn ac arall!

- Wel! Bellach mae Aneurin wedi ei ordeinio, ac yn dwyn y teitl – Y Parchedig!! Pwy a wŷr na fydd yn mynd o gwmpas y lle mewn coler gron ar hyn!!! Llongyfarchiadau arbennig iddo, a dymuniadau gorau am fendith ac eneniad ar ei waith yn yr Arglwydd wrth iddo wireddu ei ddyhead i ymroi i'r gwaith hwn.
- Llongyfarchiadau hefyd i H.Glyn Williams (Cefn Meiriadog) gafodd ei longyfarch yn y Sasiwn ar gyflawni 50 mlynedd fel blaenor, ac i John E.Davies (Peniel) yntau wedi cyflawni 40 mlynedd. Diolchwn i Dduw am gynnal y ddau, ac am eu ffyddlondeb dros y blynyddoedd yn y gwaith.
- Cofiwch fod copïau o'r gyfrol **Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn** ar gael yma, a gallaf eu cynnig ar ddisgownt am gyfnod. Os oes rhywun yn dymuno prynu un, gadewch imi wybod. (Dyma fydd llawlyfr yr Ysgol Sul i oedolion am y blynyddoedd 2011-2013).
- Mae Siân eisiau diolch i bawb wnaeth ymateb mor ragorol i'r casgliad o nwyddau at ffoaduriaid di-gartref yn Llundain. Ysgrifennodd un o'r ffoaduriaid y nodyn hwn - "*In this busy world we sometimes forget there are still nice people who do nice things. Thank you for being such a wonderful reminder. Bless you all*"

I ddod

- Nos Fercher y 24ain, mi fydd criw **C.I.C. yn mynd i lawr i Landudno** i ymweld â'r caffi Cristnogol sydd yn cael ei gynnal yno ar gyfer ieuenctid y dre. Mwy o wybodaeth gan Sarah, Elinor, neu Huw.
- **Cyfarfod Chwiorydd Tanyfron** nos Fercher, Tachwedd 24ain am 7.30. Y gŵr gwadd fydd Neville Hughes (Hogiau Llandegai).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14^{eg} Tachwedd 2010

Heno
Pwy sy'n aberthu go iawn?
Iesu – aberth gwell!!!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Wrth addoli gyda'n gilydd, gweddiwn am gael adnabod cwmni Duw yng nghanol y cyfan, yn dyrchafu Iesu Grist.

Faint ohonoch tybed sydd wedi cael ymwelydd annisgwyl yn ddiweddar? Pan oeddem yn blant, mi fyddai ymwelwyr yn bethau prin rhyfeddol. D'oedd fawr o neb yn galw heibio, yn rhannol gan fod y tyddyn yn weddol anghysbell, a d'oedd ein ffordd ni ond yn cyrraedd ein tŷ ni. Amhosibl i rywun ddweud 'roeddwn jest yn pasio ac yn meddwl y baswn yn taro mewn'!! Ac yna wrth gwrs, roedd ceidwadaeth gynhenid y Cymry - d'oedd mynd i dai pobl ddim yn beth naturiol i wneud os na fyddai rhyw angen penodol. Cofiwch, gan fod yna unarddeg o bobl yn byw yn y tŷ beth bynnag, mi fyddai wedi bod yn dipyn o job gwneud lle i rywun arall!! Pan fyddai rhywun yn dod, gallwch ddychmygu'r cynnwrf, yn arbennig ymhlith y rhai ieuengaf. Yn anffodus, ni fyddai ein mwynhad o'r cwmni yn parhau yn hir, gan y byddem fel arfer yn cael ein symud i ystafell arall, rhag ofn i ni wneud sioe, neu godi cywilydd mae'n debyg. Yr un peth sydd yn aros yn y cof yw'r ffaith y byddai mam, a hynny yn ddi-ffael, yn ymddiheuro wrth bwy bynnag fyddai'n dod gan nad oedd wedi cael cyfle i baratoi. Ond dyna ni, dyna beth yw ymwelwyr annisgwyl - annisgwyl! Mae'n anodd bod yn barod amdanynt bob amser!

Cofiwch, mae yna bobl sydd yn disgwyl yr annisgwyl yn gyson. Dywedir am Joseff Jenkins, gweinidog yng Ngheir Newydd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ei fod wedi bod yn disgwyl y byddai Duw yn ymweld â Chymru yn nerth ei Ysbryd Glân am flynyddoedd cyn iddo gyrraedd yn Chwefror 1904!! Bu wrthi am fisoedd yn trefnu cyfarfodydd gweddi, a chyfarfodydd i "*ddyfnhau ein hymrwymiad i Grist*". Ond, wrth iddo bregethu yn ei bulpud y mis Chwefror hwnnw, daeth yn ymwybodol fod yr Ysbryd Glân yn cludo'r gair i mewn i galonnau ei wrandawyr, ac mewn dim, roedd bywydau yn cael eu trawsnewid.

Byddaf, wrth natur, yn weddol gyndyn i sôn llawer am ymweliadau grasol yn ystod ein hoedfaon yma yn y Fro. Mae hyn, yn rhannol oherwydd gall fod yna amryw byd o ymweliadau annisgwyl yn hanes nifer o unigolion na wyddwn i ddim amdanynt. Ac yna wrth gwrs, mae hwn yn destun anghyfarwydd iawn i lawer. Ond, heddiw, rhaid dweud. Rwy'n credu fod oedfa nos Sul diwethaf wedi bod yn un unigryw yn hanes fy arhosiad yma yn yr Ofalaeth. Mae'n anodd disgrifio hyn mewn geiriau, ond o'r cychwyn cyntaf roedd yna wahaniaeth, gwahaniaeth yn yr awyrgylch, gwahaniaeth yn y mawl, gwahaniaeth yn y pregethu. Tebyg mai'r peth hawsaf yw dweud - penderfynodd yr Arglwydd ei hun ymweld â ni!!! Mae Duw yn *llond pob lle, yn bresennol ym mhob man*, mae'n bresennol lle mae dau neu dri o Gristnogion gan ei fod yn dod gyda hwy. Dwi'n deall hynny fel gwaith arferol Duw. Ond, nos Sul, cawsom rywbeth o'r anarferol, lle mae Duw yn ymwelydd annisgwyl, a ninnau yn llawn cyffro o wybod hynny! Braidd na fedrech estyn a'i gyffwrdd. Diolch Iddo.

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan. Bydd **paned ac addoliad anffurfiol am 6.00**, ac yna bydd yr oedfa **am 6.30** gyda Huw yn arwain a Meirion yn pregethu.

Llun **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30. Grwpiau **Adnabod** Aneurin ac Elen yn cyfarfod am 8.00

Adnabod beth yw Cristnogaeth go iawn yng Nghapel Llanefydd am 8.00. Wnewch chi sylwi ar y newid amser a lleoliad yr wythnos yma?

Mawrth ****Cyfarfod i Flaenoriaid y Fro** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.**

lau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.

Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30

Gwener **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Llansannan am 9.30 y bore.

Sul nesaf Oherwydd y gwasanaeth arbennig i'r Fro yn y bore, ni fydd oedfa yn y nos.

Sul nesaf – Oedfa arbennig i'r Fro gyfan

Gwasanaeth Comisiynu y Parch. Owain Aneurin Owen

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

am 10.30

*Bydd cyfle i'r plant fynd i'r Ffestri ar gyfer y Gorlan a'r Gorlan Fach
yn ystod ail ran y gwasanaeth a dod yn ôl i mewn i'r capel
ar gyfer gwasanaeth y Comisiwn.*

Darperir lluniaeth ysgafn yn y Ffestri i bawb yn dilyn yr oedfa.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau
i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn ystod y gwasanaeth, ceir anerchiad gan aelod o'r Samariaid. Bydd Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00 a byddwn yn ymgynnull ger y gofeb am 10.50. Ysgol Sul y plant am 10.00.

Llun Y Gymdeithas gydag Iwan Price, Cerrigydrudion yn y Ffestri am 7.30

Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Sul nesaf Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd y Parch. Bernant Hughes yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith **yn Henllan** am 10.00. Yn ystod yr oedfa, bydd Cai Tudur, mab Manon a Llŷr yn cael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Meirion - 📧 meirion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870601 📞 07554 005423
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf